

CONTACT

Y Cylchgrawn Cymunedol ar gyfer Bwrdeistref SiroI Merthyr Tudful

**Rydyn ni'n mynd i'r
afael â thaflwyr sbwriel!** 12

**Atal
Parcio
Problemus** 16

**Children in
Gurnos get off
to a flying start** 21

WELSH?

WELSH?

08

**Fabulous
summer
festivals**



Croeso i rifyn
40 o'r cylchgrawn
cymunedol Contact.



Ar ôl hydref a gaeaf gwlyb iawn, rwy'n gobeithio, fel yr ydych chi rwy'n siŵr, am wanwyn a haf sych a chynnes i ni gael gwneud y mwyaf o'n Bwrdeistref Sirol a'r holl ddigwyddiadau sydd wedi eu cynllunio. Caiff rhai o'r rhain eu manylu ar dudalen 08.

Dros y blyneddau diweddar, mae Merthyr Tudful wedi derbyn buddsoddiad sylweddol sydd wedi gwella ein hisadeiledd a'n hamgylchedd yn fawr iawn yn ogystal â chynyddu'r gweithgareddau hamdden y gallwn ni i gyd eu mwynhau. Er mwyn arddangos hyn, mae gwefan newydd Ymwelwch â Merthyr a chanllaw Ymwelwyr wedi eu cynhyrchu a disgwylir eu lansio dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Mae cael amgylchedd glân a deniadol yn ffactor arwyddocaol i'r hyn sy'n gwneud pobl yn falch o ble maen nhw'n byw ynddo.

Byddwch wedi gweld y mynych dipio anghyfreithlon sy'n digwydd yn ein Bwrdeistref Sirol ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno nad yn unig yw hyn yn edrych yn hyll, ond mae'n gwneud niwed i'n hamgylchedd ac yn arwain at broblemau iechyd y cyhoedd, fel arogleuon drwg a phroblemau â chnoflod. Fel Cyngor, rydym yn gweithio'n galed i ddelio â'r broblem hwn.

Mater arall a fu'n broblem ers talwm ym Merthyr Tudful yw sbwriel a baw ci. Er mwyn mynd i'r afael â hyn rydym wedi penodi wardeniaid a fydd yn patrlio'r Fwrdeistref Sirol gan roi dirwyon o £75 yn y fan a'r lle bob tro y byddant yn gweld unigolyn yn cyflawni'r troseddau hyn. Mae rhagor o fanylion ar dudalen 12.

Gall swyddi fel hyn fod yn gynhennus yn aml ac er gwaetha'r ffaith bod y wardeniaid wedi eu penodi i'n helpu ni i ddelio â phroblem y mae'r holl breswylwyr ac ymwelwyr am weld yn dod i ben, maen nhw wedi bod yn dod ar draws ymddygiad heriol a threisgar oddi wrth aelodau o'r cyhoedd.

Yma, yn y Cyngor, mae ein staff yn gweithio'n galed iawn i wasanaethu anghenion ein preswylwyr a'r ymwelwyr a ddaw i'n Bwrdeistref Sirol brydferth. Y mae'n destun gofid felly pan fyddaf yn clywed am ddigwyddiadau o fwlio neu aflonyddu ar unigolion sydd ond yn ceisio cyflawni eu swyddi. Mae lles ein staff o'r pwysigrwydd pennaf a chaiff unrhyw honiadau o seibr-fwlio ac ymddygiad bygythiol neu dreisgar ei ymchwilio'n llawn a'i drin yn y modd priodol. Wrth weithio mewn gwasanaethau llinell flaen mae ein staff yn delio â chwsmeriaid â chwarteisi a pharch a gofynnaf fod aelodau'r cyhoedd yn ymateb yn yr un modd.

Chief Executive of Merthyr Tydfil CBC, Gareth Chapman

Am yr holl newyddion diweddaraf, Hoffwch ni
ar Facebook a Dilynwch ni ar Twitter!

Hoffwch ni @Merthyr Tydfil CBC

Dilynwch ni @MerthyrCBC

Busnesau Cymru'n elwa o raglen 5 mlynedd i gefnogi technoleg

Mae busnesau yng Nghymru ar fin elwa o fuddsoddiad o gronfa'r ERDF a Llywodraeth Cymru i'w helpu i wneud y mwyaf o'r technolegau a gaiff eu galluogi gan y band eang cyflym iawn dros y bum mlynedd nesaf.

Mae gwasanaeth newydd Cyflymu Busnesau Cymru yn darparu cyngor a chanllawiau am ddim i helpu busnesau i ddynodi, mabwysiadu ac ecsploetio'r cyfleoedd y gall technoleg eu creu. Gall y gwasanaeth helpu busnesau i leihau costau, cynyddu gwerthiant i gwsmeriaid presennol, a dod o hyd i gwsmeriaid newydd a chynyddu elw.

Wedi ei greu'n arbennig i helpu busnesau bach a chanolig, mae'r gwasanaeth yn darparu:

- ▶ **Cyngor am sut i ddefnyddio technoleg Cwmwl**, cyfryngau cymdeithasol, systemau CRM ac yn y blaen i gynyddu elw
- ▶ **Adolygiad gwefan am ddim** i werthuso pa mor effeithiol yw'ch gwefan a sut y mae'n cymharu yn erbyn cystadleuwyr
- ▶ **Gweithdai Gweithredu sy'n ysbrydoli**, gan roi'r hyder, sgiliau a gwybodaeth i fusnesau i ecsploetio buddion technoleg ddigidol
- ▶ **Mynediad at ymgynghorwyr arbenigol mewn busnes digidol**

Ffôn 03000 6 03000

Gwe <http://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/>

E-bost superfast@businesswales.org.uk

**Inspiring Action Workshop -
Technology for Business Growth**

A fully funded event for micro, small and medium sized businesses in Merthy.

Orbit Business Centre
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil, CF48 1DL

Registration: 10.00am

Event: 10.30am - 12.30pm

WELSH?

**Gweithdai Gweithredu
Ysbrydoledig i helpu
busnesau i ecsploetio
buddion technoleg
ddigidol**

Cyflymu Busnesau Cymru | Superfast Business Wales





Disneyland PARIS

2 Oedolyn a 2 Blentyn o
£698

#WYDDOCHCHIMAI
EDWARDS YW'R PARTNER
A FFAFRIF GAN
DISNEYLAND® PARIS

AM RAGOR O WYBODAETH
CYSYLLTWCH Â'N SIOP
DEITHIO YM
MERTHYR TUDFUL
FFÔN: 01685 387877

EDWARDS
HOLIDAYS

www.edwardscoaches.co.uk

PARCIO AM DDIM YN EIN DEPO
YN LLANILLTUD FAERDREF

©DISNEY

Newid y ffordd rydym yn gwneud busnes

— Sut y bydd yn effeithio arnoch chi a'ch cwsmer.

Gyda'r holl doriadau gan y Llywodraeth Ganolog, mae Cyngorau ledled Cymru'n barhaol chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu gyda'r cyllidebau sydd wedi eu cwtogi.

Fel Cyngor, rhaid i ni newid y ffordd rydym yn gwneud busnes fel ein bod ni'n gallu darparu gwell gwasanaeth cwsmeriaid i chi, eich cwsmeriaid. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi bod yn edrych ar eich profiad fel cwsmer a sut y gellir ei wella.

Rydym am sicrhau fod y Cyngor yn darparu'r wybodaeth gywir ar eich

cyfer chi ar yr amser cywir, tra bod ein holl breswylwyr a busnesau hefyd yn cael eu hannog i ddyfod yn fwy annibynnol ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar amser sy'n eich siwtio chi!

Byddwn hefyd yn cyflwyno system apwyntiadau newydd a fydd yn lleihau amseroedd aros i'n cwsmeriaid, tra ein bod ni hefyd yn cynnig gwell gwasanaeth i'r rheini a allai fod ag angen trafod materion mwy cymhleth gyda'n hasiantaethau gwasanaeth cwsmeriaid.

Rydym am sicrhau fod pawb sy'n delio â'r Cyngor yn cael profiad da.

Pan fyddwn yn lansio'r gwasanaeth newydd hwn byddwn yn gofyn am adborth gennych am eich taith fel cwsmer.

Bydd rhagor o wybodaeth fanwl ar gael dros y misoedd sy'n dod drwy wefan y Cyngor, safleoedd cyfryngau cymdeithasol a thrwy sesiynau gwybodaeth yng nghanol y dref.

Rydym am i'ch profiad chi a'ch Cyngor i fod yn un da, felly gweithiwch gyda ni i gael y gwasanaethau cywir ar eich cyfer chi, bobl Merthyr Tudful.

Rydym am i chi allu cael mynediad at ragor o wasanaethau trafodaethol ar-lein fel:

- ▶ Talu amdano
- ▶ Rhoi gwybod amdāno
- ▶ Gofyn amdano
- ▶ Dweud amdano

ORCHARD ENTERTAINMENT YN CYFLWYNO

MADNESS

A GWESTION ARBENNIG

DYDD GWENER 19 AWST 2016

CASTELL CYFARTHFA

MERTHYR TUDFUL

TOCYNNAU: 02920 230 130 | TICKETMASTER.CO.UK
ORCHARDENTERTAINMENT.CO.UK

Tocynnau hefyd ar gael o: GANOLFAN HAMDDEN MERTHYR TUDFUL | REDHOUSE, MERTHYR
AMGUEDDFA CASTELL CYFARTHFA | DERRICKS RECORDS, ABERTAWE | GATIAU: 4PM



Orchard ENTERTAINMENT MEDIA heart
WALES 105-106
more music, more life

Hysbysebwrch yng Nghylchgrawn Cymunedol Contact i hyrwyddo eich busnes.

Gall weithio i chi fel hyn:

- ▶ Caiff 30,000 o gopiau eu hargraffu ddwy waith y flwyddyn (Fel arfer yn ystod y Gwanwyn a'r Hydref)
- ▶ Caiff ei ddosbarthu i bob cartref ledled y Cyngor Bwrdeistref
- ▶ Caiff copiau ychwnegol eu dosbarthu i ganolfannau hamdden, canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, cyflogwyr lleol a busnesau bach eraill ar hyd a lled Merthyr Tudful.
- ▶ Rydym yn cyhoeddi Cylchgrawn Cymunedol Contact ar wefan y Cyngor www.merthyr.gov.uk ac ar safleoedd Facebook a Twitter y Cyngor.
- ▶ Dyluniad a phrint o ansawdd uchel
- ▶ Cyhoeddiad cwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg
- ▶ Darparu'r newyddion diweddaraf am y gymuned, gwasanaethau a digwyddiadau
- ▶ Cymorth dylunio am ddim i'ch hysbyseb, os yw'n ofynnol
- ▶ Cyfraddau cystadleuol

Diddordeb? Os felly,
cysylltwch: E-bost - corporate.communications@merthyr.gov.uk
neu ffoniwch un o'r tîm ar (01685) 72 5052 / 5087 / 5166.



Dance Crazy STUDIOS

Come & Join One Of The UK's Biggest & Most Successful Dance Schools

Dance & Fitness Classes for Children

Merthyr Leisure Centre, Rhydyar

1st Class FREE!

Tuesday/Dydd Mawrth

Latin/Disco/Street/Ballroom 5:15-6pm 3-7 years
Latin/Disco/Street/Ballroom 6-7pm 8-16 years

Saturday/Dydd Sadwrn

Baby Ballet & Movement 9-9:30am
Latin/Disco/Street/Ballroom 10-10:45am
Latin/Disco/Street/Ballroom 11-12pm

NEW NUMBER! Tel: 07421 760 545

www.dancecrazy.org.uk

Find Us On   

CRB UKA
Criminal Records Bureau dance

BYDDWCH YN YMWBODOL!

Sicrhewch fod eich tacsï wedi ei drwyddedu'n llawn.

Edrychwch allan am...

- DIM OND Cerbyd Hacni gallwch alw arno o ymyl y ffordd (rhaid iddo fod yn ddu o ran lliw a chael golau ar y to)
- Plât trwydded ar y cefn y tu allan a phlât ar y sgrin blaen
- Sticer tocyn trwydded dilys wedi ei arddangos ar y drysau blaen
- Bathodyn adnabod gyrwr dilys wedi ei arddangos yn y cerbyd (ac un arall sy'n rhaid i'r gyrwr ei wisgo)
- Mesurydd (RHAID i'r gyrwr redeg y mesurydd ar hyd y daith hyd y cerbyd os ydych wedi cytuno ar bris cyn dechrau).
- Tabl yn arddangos prisiau

I roi gwybod am gerbyd didrwydded ffoniwch (01685) 725000

TAXI


TAXI007
TO CARRY 4 PASSENGERS
LICENSED HACKNEY CARRIAGE


007
TAXI
27/03/2016
PASSENGER


Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council



*** £8 am bob clwb
ar ôl ysgol ac
£16 am sesiwn
drwy'r dydd o'r
clwb gwyliau**

Pontio'r Bwlch Ieuenctid

Menter gymunedol yw Pontio'r Bwlch Ieuenctid sy'n darparu Clwb Ieuenctid ar ôl Ysgol ym Mhentrebach i bobl ifanc 8-19 oed ac mae'n gwbl gynhwysol o bobl ifanc ag anghenion penodol.

**Llun – Gwener 3.00pm- 6.00pm
(5.30pm on Mercher)
Casglu am ddim o Ysgol
Greenfield.**

**Ymhlith y gweithgareddau
i'w mwynhau mae:**

- ▶ Cyfrifiaduron
- ▶ Garddio
- ▶ Coginio
- ▶ Cerddoriaeth
- ▶ Chwaraeon
- ▶ Gamau
- ▶ Celf a chrefft

**Cynigir sesiynau synhwyraidd
dyddiol yng Nghanolfan
Integredig Cwm Golau
Pentrebach.**

Yn ychwanegol at ddarpariaeth ar ôl ysgol, mae Pontio'r Bwlch hefyd yn cynnig darpariaeth Clwb Gwyliau yn ystod gwyliau ysgol, o ddydd Llun tan ddydd Gwener (10am – 4.00pm).

Yn ystod gwyliau ysgol, mae gan bobl ifanc y cyfle i gyfranogi

mewn ymweliadau oddi ar y safle sy'n cynnwys pysgota ym Mharc Taf, Bargoed, teithiau cerdded lleol gyda Cherddwyr Merthyr Ramblers a hefyd cawn ymweliadau oddi wrth Dim Datblygu Chwaraeon, y Llyfrgell, Gwobrau Bywyd Ifanc Amblwlans Sant Ioan a gweithgareddau saethyddiaeth sy'n cael eu darparu gan y sgowtiaids.

**£8 am bob sesiwn ar ôl ysgol a
£16 am y dydd mewn sesiwn
clwb gwyliau.**

Rydym yn cynnal sesiynau blasu am ddim ar bawniau Llun a Mercher ar hyn o bryd, os hoffech i'ch plentyn fynychu defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

**Am ragor o fanylion,
e-bostiwch BGYouth@hotmail.
co.uk neu ffoniwch 07852
766928.**

Cynllun Nofio Am Ddim y Lluoedd Arfog

Nofio Am Ddim ar gyfer y Lluoedd Arfog a hen filwyr yw'r fenter ddiweddaraf i'w lansio gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Becyn Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog.

Caiff y cynllun ei gyflenwi gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru i alluogi ac annog hen filwyr a phersonél ein lluoedd

arfog i fwynhau nofio fel ffurf o weithgaredd ymarfer corff ac fel cydnabyddiaeth o'r gwasanaeth y maen nhw wedi ei roi i'w gwlad.

Gall personél y lluoedd arfog sydd ar wyliau a hen filwyr fanteisio ar y cynllun drwy ymweld ag un o'n dwy Ganolfan a dangos eu Cerdyn Braint Y Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn cofrestru.

**Os nad oes cerdyn
gennych ewch i
www.defencediscountservice.
co.uk**

**Am ragor o fanylion a chyngor
cysylltwch â ni ar
01685 727432.**



*** FREE
Swimming
for Armed
Forces and
veterans**

WELSH TRANSLATION?

Adult Learning



**Ydych chi'n
breswylwr ym
Merthyr Tudful?**

**Ydych chi'n
gyflogedig a
dros 16 oed?**

**Hoffech
chi symud
ymlaen yn
eich swydd
bresennol?**

**Hoffech chi
gael sgiliau neu
gymwysterau sy'n
berthnasol i swydd?**

**Hoffech
chi newid
gyrfa?**

Yna mae Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 ar eich cyfer chil Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop yw hwn sy'n anelu at gynyddu sgiliau'r rheini sy'n cael eu cyflogi neu sy'n hunan gyflogedig.

Beth gall ei gynnig i chi?

- ▶ Amrywiaeth o hyfforddiant teilwredig, yn cynnwys sgiliau hanfodol - llythrennedd a rhifedd, Gwasanaeth Cwsmeriaid, cyrsiau TG, cymwysterau ffurfiol fel City and Guilds ac Agored Cymru.
- ▶ Rhaglen gefnogi i sicrhau eich llwyddiant a'ch cyflawniad gyda'r cymwysterau.
- ▶ Cefnogaeth un i un gyda swyddog cyswllt cyflogaeth i'ch helpu i symud ymlaen yn eich swydd bresennol neu newid eich gyrfa.
- ▶ Swyddog cyswllt cyflogaeth ymroddedig i'ch helpu i ddynodi'r rhwystrau sy'n eich atal rhag symud ymlaen yn eich cyflogaeth, a ffyrdd o weithio o'u cwpas.
- ▶ Cymorth wrth i chi symud ymlaen at ddysgu pellach drwy lwybrau Addysg Bellach, Addysg Uwch a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Adeiladu eich sgiliau... Adeiladu eich gyrfa

- ▶ Hyfforddiant Am Ddim
- ▶ Cefnogaeth 1 i 1
- ▶ Cymwysterau
- ▶ Technegau Cyfnewid
- ▶ Hyder a Chymhelliant

Er mwyn gwneud apwyntiad neu i ganfod a ydych yn gymwys am gefnogaeth yn eich ardal, cysylltwch â'r tim ar

Ffôn: 01685 727070

E-bost: WSFA2@Merthyr.gov.uk

Canolfan Treftadaeth Bothy, Parc Cyfarthfa, CF47 8RE

*** Cefnogaeth un i
un gyda swyddog
cyswllt cyflogwr
i'ch helpu i
wneud cynnydd**

Byddwch yn barod am ambell i wyl hwyliog ym Merthyr Tudful yr haf hwn

Dewch i weld bywiogrwydd canol dref Merthyr Tudful yr haf hwn gyda rhaglen ragorol o ddigwyddiadau a gwyliau. Mae yna rywbeth i bawb ei fwynhau, boed yn gerddoriaeth fyw a dawns, bwyd blasus a diod neu ddiwrnod diog ar y traeth!

Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau ar ddyddiau Sadwrn pan mai dim ond £1 yw pris parcio drwy'r dydd ym meysydd parcio talu ac arddangos yng nghanol y dref. Felly gallwch ddod am y diwrnod, mwynhau'r adloniant, ymlacio, siopa ychydig a chael tamaid i'w fwyta – hyn oll heb orfod rhuthro yn ôl i'ch car.



Am ragor o wybodaeth, ewch i www.welovemerthyr.co.uk neu hoffwch ni ar Facebook *We Love Merthyr*.

g Marchnad Ryngwladol Merthyr Dydd Iau 19, Dydd Gwener 20 and Dydd Sadwrn 21 Mai

Trefnwyd gan Event Inspire

Detholiad o fwyd danteithiol, cynnyrch blasus ac anrhegion anarferol o bob rhan o'r cyfandir

g Fiesta Tshili Gwych Merthyr Dydd Sadwrn 11 Mehefin

Trefnwyd gan hyrwyddwyr digwyddiadau tshili cenedlaethol, Chilli Fest UK, a The Big Heart ym Merthyr Tudful

Mae'r gybolfa tshili'n cynnwys ryw 20 o fasnachwyr yn gwerthu'r gorau oll o nwyddau tshili yn ogystal â llwyth o fwydydd i'w bwyta, eu hyfed a'u blasu

g Gŵyl Fwyd Merthyr Dydd Sadwrn 16 Gorffennaf

Trefnwyd gan The Big Heart o Ferthyr Tudful

Stondinau bwyd, arddangosfeydd cogyddion, adloniant byw, stondinau crefft a llawer mwy – os ydych chi'n caru bwyd, byddwch chi'n caru Gŵyl Fwyd Merthyr!

g Merthyr ger y Môr Dydd Gwener 19 a Dydd Sadwrn 20 Awst

Trefnwyd gan The Big Heart o Ferthyr Tudful

Yr hwyl i gyd ar lan y môr ar ein traeth ein hunain gyda chadeiriau glan môr, cytiau traeth, adloniant byw a llawer mwy

Cronfa Gymunedol Ffos Y Fran

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweinyddu Cronfa Gymunedol mewn perthynas â thaliadau breindal a dderbyniwyd gan y Cyngor oddi wrth Miller Argent Limited sydd yn seiliedig ar dunelledd o lo a echdynnir o Gynllun Adferiad Tir Ffos Y Fran.

Mae Miller Argent mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cytuno fod ceisiadau am gefnogaeth oddi wrth Gronfa Gymunedol Ffos Y Fran yn cael eu croesawu gan fuddwyr. Rhaid i bob cais gefnogi prosiectau cymunedol lleol sydd â phwyslais addysgiadol, amgylcheddol neu hamdden. Caiff y Gronfa Gymunedol ei rhannu'n 3 chategori:-

Cronfa Fach

Mae'r Cynllun Grant Bach ar gyfer ceisiadau o £1,000 neu lai. Gellir cael gafael ar ffurflenni cais oddi wrth Gyngorwyr Rhanbarth y Ward Etholiadol ar gyfer eich ardal.

Cronfa Fawr

Mae'r Gymuned Fawr ar gyfer ceisiadau rhwng £5,000 a £500,000. Mae'r cynllun hwn ar gau ar hyn o bryd.

Cronfa Ganolog

Mae'r Gronfa Ganolog ar gyfer ceisiadau hyd at £5,000. Rhaid i geisiadau fod yn gallu arddangos cyfran o arian cyfatebol hyd at fwyafswm o 50% o gyfanswm cost y prosiect. Caiff paneli asesu eu cynnal bob 6 mis gyda'r dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau ar 31 Mawrth 2016 a'r un ar ôl hynny ar 6 Hydref 2016. Gellir cael gafael ar geisiadau oddi wrth Gydlynnydd Cronfa Grantiau Budd-dal Ffos y Fran.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Chydlynnydd Cronfa Grantiau Budd-dal Ffos y Fran ar (01685) 725289 neu ffosyfran@merthyr.gov.uk

Ceir dadansoddiad cryno isod o'r prosiectau a gefnogir gan Banel Canolog FYF ym mis Hydref 2015

1. Prosiect Ieuenctid Forsythia

Cyfrannu at gyfanswm cost selio'r danffordd a gosod croesfan sebra mewn man dynodedig.

DYFARNWYD - £4,612.50

2. Sant Ioan Cymru – Rhanbarth Ynys Owen Aber-fan

Adfer llawr gwreiddiol yr adeilad, gosod boeler a gwresogydd cyfunol a system dŵr poeth, drysau upvc newydd, system larwm a chost y llafur.

DYFARNWYD - £5,000

3. Eglwys Gobaith / Hope Church Merthyr Tudful

Atgyweiriadau mewnol ac eitemau sy'n atodol i waith galw heibio a'r arddegau sy'n ymgysylltu â'r gymuned.

DYFARNWYD - £5,000

4. Clwb Rygbi Ieuenctid Treharris

Dechrau adran ieuenctid newydd i chwaraewyr 16 oed a hyn. Prynu bagiau taclo, padiau taclo, offer cymorth cyntaf, pecyn hyfforddi, pêl datblygu, cyrsiau hyfforddi a chysiau cymorth cyntaf.

DYFARNWYD - £2,502.40

5. Eglwys Gatholig y Santes Fair

Cyflawni atgyweiriadau lefel uchel brys yng nghroesfâu'r de a'r gogledd, y gangell, canol yr eglwys a tho'r gysegrfa i atal y defnydd rhag ddadfeilio ymhellach yn sgil dŵr yn dod i mewn.

DYFARNWYD - £5,000

6. Merthyr Eyelights

Cymorth ar gyfer costau hebrwng a llogi bysiau mini i gludo aelodau i'r cyfarfodydd.

DYFARNWYD - £3,500

7. ELITE Paper Solutions

Ehangu gweithgareddau'r fenter gymdeithasol drwy ddarparu gwasanaeth sganio a fydd yn cynhyrchu incwm i alluogi hyfforddi a chyflogi pobl ag anabledd neu'r rheini o dan anfantais.

DYFARNWYD - £5,000

8. Grŵp cymunedol Pontsticill

Cael bloc toiledau yn y pentref, ei ailwampio er mwyn ei ddefnyddio eto i ddiwallu anghenion y llu o dwristiaid sy'n ymweld â'r pentref yn ogystal â'r gymuned leol.

DYFARNWYD - £5,000

9. Ymddiriedolaeth Elusennol Canmlwyddiant Stephens a George

To support with costs for the Spread the Word Literature Festival. Awarded - £4,900

10. Côr: Merthyr Aloud World Music Choir

Cefnogi ffioedd arweinydd y côr am 26 wythnos

DYFARNWYD - £1,380

11. Gŵyl Pentref Byd-eang Merthyr Tudful

Cefnogaeth tuag at gostau rhedeg Gŵyl Pentref Byd-eang Merthyr Tudful 2016

DYFARNWYD - £5,000

Canolfan Fenter / Neuadd Dewi Sant



Mae'r cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd Llywodraeth Cymru yn agosáu at ddiwedd ei ail flwyddyn o gyflawniad, a chafodd nifer o lwyddiannau eu cyflawni dros y 12 mis diwethaf.

Agorodd y Gweinidog dros Gymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths AC, Ganolfan Fenter Merthyr Tudful - ynghyd â'r Cyngorydd Brendan Toomey, Arweinydd y Cyngor a Huw Lewis AC yn ystod yr haf. Cafodd dau o'r prosiectau Defnydd yn y Cyfamser a Pharhaol Mewn Adfywio Canol Trefi, a gefnogir drwy'r Ganolfan Fenter eu lansio, Tŷ Bwyta JOL's a Deli of the Valley, yn ystod yr hydref.

Y digwyddiad mwyaf diweddar oedd dadorchuddio ailwampiadau yn adeilad rhestredig Graddfa II Canolfan Gymunedol Dewi Sant, neuadd eglwys hanesyddol ym Merthyr Tudful. Cafodd grant ailwampio o £180,000 ei sicrhau fel rhan o'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd Llywodraeth Cymru, ynghyd ag arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri

i drawsnewid yr adeilad yn lleoliad cymunedol cyffrous yng nghanol y dref.

Mae'r prosiect Defnydd yn y Cyfamser a Pharhaol Mewn Adfywio Canol Trefi yn darparu cyfle i fusnesau cyfredol a newydd brofi eu nwyddau a'u gwasanaethau yn adeiladau gwag canolfan siopa Merthyr Tudful am chwe mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn sicrhau eu cynaliadwyedd, gyda'r nod o barhau i fasnachu'n annibynnol o'r prosiect.

Cymeradwyodd Lesley Griffiths brosiect Neuadd Dewi Sant am gyflawni nifer o ddeilliannau, yn cynnwys creu swydd ran amser, diogelu dwy swydd bresennol, addasu ased hanesyddol a sefydlu cyfleuster cymunedol newydd.



Gorsaf Fysiau

Yn dilyn ein hymgyngoriad cyhoeddus terfynol yr haf diwethaf ar ddyluniad yr orsaf fysiau newydd, mae gwaith wedi bod yn mynd yn ei flaen i sicrhau bod gennym ddyluniad cynaliadwy sy'n bodloni anghenion defnyddwyr a thenantiaid arfaethedig.

Mae trafodaethau llwyddiannus am ddefnydd yr orsaf yn y dyfodol wedi eu cynnal gyda chwmni bysiau Stagecoach a Heddlu De Cymru. Mae'r Heddlu wedi cadarnhau y byddan nhw'n defnyddio swyddfa'r llawr gwaelod fel canolfan canol y dref newydd i'r heddlu.

Wrth i ni aros am gymeradwyaeth cynllunio, bydd y gwaith yn parhau i orffen dyluniad mewnlol yr adeilad, ac rydym yn rhagweld dechrau gweithio ar y safle yn hwyr yn 2016.



Gwaith yr YMCA yn dod at ei gilydd

Mae penodi tîm proffesiynol i arwain ailwampio'r YMCA wedi ei gwblhau bellach.

Y Penseiri, Davies Sutton, yw'r prif ymgynghorwyr, gyda gweddiill y tîm yn cynnwys y peirianwyr adeileddol Mann Williams, ymgynghorwyr mecanyddol a thrydanol a'r syrfewyr meintiol Mildred, Howells & Co.

Mae'r ymgynghorwyr eiddo masnachol Alder King yn gweithio gyda ni i ddatblygu gwerthusiad marchnad i ddynodi defnyddwyr arfaethedig. Byddwn yn canolbwyntio ar bob un o'r cwmnïau yng nghylchlythrau'r dyfodol.

Cafodd cyfanswm o £2.6m ei glustnodi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) i helpu i gadw adeilad rhestredig Graddfa II y YMCA. Mae'r arian wedi ei ddarfarnu i Ymddiriedolaeth Adfywio Treftadaeth Sir Gâr sydd â'r nod o ddiogelu'r adeilad drwy ei addasu'n 11 o unedau masnachol gyda'r potensial o greu mwy na 70 o swyddi lleol.

PROFI'R LLORIAU

Yn ystod mis Ionawr, daeth Brian Jarvis o'r arbenigwyr peirianyddol Eatec Dynamics i'r safle. Ymgymrodd Brian â phrofi dynamig y lloriau, sydd â thrawstiau dur a distiau 'llenwi' concrit wedi eu hail-atgyfnerthu. Mae profi dynamig yn ein galluogi ni i sefydlu cryfder y lloriau heb orfod 'torri tyllau' yn unrhyw un ohonynt. Math o brofi heb wneud difrod yw hyn sy'n golygu bod y mwyaf posibl o'r ffabrig hanesyddol yn cael ei gadw. Mae'r canlyniadau wedi bod yn dda a'r lloriau wedi goroesi'n dda mor belled!

YMCA – ATGOFION A FFOTOGRAFFAU? HELPWCH NI!

Ein gobaith yw casglu atgofion am y YMCA – oeddech chi, eich rhieni neu fam-gu a thad-cu arfer gweithio neu ddefnyddio'r adeilad o gwbl? Wnaeth unrhyw un ohonoch i ymweld â'r gampfa neu ddod i ddawns? Os oes unrhyw atgofion gennych y gallwn eu cofnodi neu ffotograffau o'r adeilad, byddem wrth ein bodd i'w gweld. Cysylltwch â Joanna Jones ar **01554 772857** neu e-bost joanna.jones@chrt.org.uk.

Eglwys Sant Ioan, Dowlais

Mae Eglwys Sant Ioan, Dowlais yn cael ei hadfer ar hyn o bryd ar ôl derbyn £300,000 oddi wrth Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd Llywodraeth Cymru a £95,000 oddi wrth gynllun Grantiau Adeiladau Hanesyddol CADW. Mae'r eglwys, nad yw wedi cael ei defnyddio fel addoldy ers 20 mlynedd ac sydd mewn cyflwr peryglus, am gael ei haddasu'n fflatiau gan greu 20 o unedau tai mawr eu hangen. Bydd yr arian, a gafwyd oddi wrth CADW, yn cael ei ddefnyddio i dalu am atgyweirio'r gwaith maen a'r to er mwyn helpu i gadw nodweddion hanesyddol yr adeilad. Arweinwyr y prosiect yw Graft Projects sydd wedi eu lleoli ym Merthyr Tudful.

£1.2m oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gefnogi'r parhad i ddadeni canol y dref

Mae trawsnewidiad canol tref Merthyr Tudful am barhau gyda £1.2m yn cael ei roi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CTL) i helpu i gadw ei 'chymeriad unigryw'.

Mae'r Cyngor wedi derbyn cefnogaeth gychwynnol' yn dilyn ei chais am Fenter Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect Treftadaeth Treflun Pontmorlais, Parhau â'r Dadeni.

Bydd y fenter £1.9m a gyd-ariennir gan CTL, yr awdurdod lleol a Cadw, yn parhau â'r ailwampio cyfredol ar gyfer nifer o adeiladau hanesyddol pwysig - gan ddarparu swyddi newydd a chyfleoedd hyfforddi - fel rhan o weledigaeth i greu Chwarter Treftadaeth yn cyfuno cyfleusterau celfyddydol a diwylliannol a manwerthwyr arbenigol.

Dyfarwyd ariannu gwerth £33,300 hefyd i helpu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol i ddatblygu ei gynlluniau i wneud cais am grant llawn yn ddiweddarach.

Dywedodd Cadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Syr Peter Luff: "Mae canol trefi hanesyddol yn guriad calon i gymunedau, felly pan fyddant yn dadfeilio mae pris uchel i'w dalu o du'r gymuned. Mae ymchwil yn dangos y gellir newid hyn a bod hyd yn oed newidiadau bach – gwella blaen siopau neu adfer nodweddion pensaernïol – yn gallu gwneud gwir wahaniaeth.

Yn 2011, dyfarwyd £1.58m Treftadaeth Treflun tuag at gam cyntaf y prosiect, sef adfer 10 adeilad yn cynnwys adeilad rhestredig Graddfa II, Neuadd Dewi Sant. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r ardal hon gan ei bod yn cynnwys nifer sylweddol o adeiladau rhestredig â gwerth pensaernïol uchel, mae peth ohono wedi elwa eisoes gan fuddsoddi mewnlol yn cynnwys Hen Neuadd y Dref (Redhouse), Canolfan Soar a'r cyn YMCA.

Mae'r Cyngor yn datblygu partneriaeth â Choleg Merthyr, Hyfforddi merthyr a chontractwyr lleol i ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu traddodiadol, gan arwain at fyfyrwyr yn cael rhagor o gymwysterau ffurfiol a lleoliadau gwaith ar gynlluniau treftadaeth ledled y rhanbarth.

Dywedodd Richard Bellamy, Pennaeth CTL Cymru: "Bydd galluogi rhagor o adeiladau Pontmorlais i gael eu defnyddio yn denu mentrau newydd i'r ardal ac yn cynorthwyo busnesau cyfredol drwy gynyddu cerddwyr yn yr ardal a chyfleoedd gwaith. Mae'r datblygiad hyn wedi dechrau ymddangos yn dilyn cam un. Mae CTL yn falch o gefnogi'r prosiect gwerth chweil hwn."



Rydyn ni'n mynd i'r afael â thaflwyr sbwriel!

Bydd y rhan fwyaf o breswylwyr yn ymwybodol fod CBSMT wedi cyflwyno Swyddogion Gorfodi Sbwriel ym mis Chwefror, ac rydyn ni'n gweld canlyniadau grêt ar ôl mis yn unig!

Mae llawer o'r preswylwyr wedi gwneud sylwadau am y gwahaniaeth cadarnhaol maen nhw wedi sylwi arno o ran glendid y Cyngor Bwrdeistref – ac rydyn ni am wella hynny hyd yn oed yn fwy.

Mae swyddogion arbenigol yn mynd i'r afael â gollwng sbwriel, baw ci, gorchmynion rheoli cŵn a thipio anghyfreithlon ac yn cyflwyno dirwyon o £75 yn y fan a'r lle; ac mae gweithredu amlwg a chudd yn digwydd mewn lleoedd ble mae tipio anghyfreithlon yn gyffredin i geisio mynd i'r afael â'r mater hwn un waith ac am byth.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio'n agos ag ysgolion er mwyn addysgu ein pobl ifanc ynghylch pam fod diogelu ein hamgylchedd mor hanfodol bwysig.

Cafwyd peth agwedd negyddol ynghylch y cynllun newydd hwn, ond rydym am dawelu meddwl pob dinesydd sy'n parchu'r gyfraith mai'r unig bobl a ddylai boeni yw'r rheini sy'n gollwng sbwriel, tipio'n anghyfreithlon ac yn gadael baw cŵn ar ein strydoedd!

Gall unrhyw un sy'n teimlo ei fod wedi cael ei drin yn annheg apelio drwy gwblhau ffurflen 'Adran 9' (S9), sydd ar gael oddi wrth Ganolfan Ddinesig CBSMT. Mae'r ffurflen yn ddogfen gyfreithiol y gellir ei defnyddio

fel tystiolaeth mewn unrhyw apêl ac y mae'n drosedd i ddarparu tystiolaeth gamarweiniol neu gyhuddiadau maleisus yn y ddogfen hon.

Mae ein swyddogion yn ymfachio mewn Gorfodaeth Foesegol ac mae ganddynt ethos o 'Rhoi gwybod, Gorfodi, Addysgu', sy'n anelu at annog a newid arferion pobl a helpu i lanhau ein hamgylchedd. QND...mae'r cyfrifoldeb a'r berchnogaeth fwyaf gennych CHI, aelodau'r cyhoedd!

- ▶ Mae hawl gyfreithiol gan swyddogion i ofodi ar dir preifat.
- ▶ Mae gollwng sbwriel yn DROSEDD a gallai unrhyw un na chanfyddir ei fod yn cydweithredu â swyddogion o dan Adran 8(a) Deddf Diogelu'r Amgylchedd gael ei erlyn, yn ychwanegol at y drosedd amgylcheddol wreiddiol.
- ▶ Os yw plentyn o dan 18 oed yn gollwng sbwriel, cyfrifoldeb y rhiant/gwarcheidwad sydd gyda'r plentyn hwnnw yw ei waredu'n gywir.
- ▶ Parchwch ein swyddogion – maen nhw'n gweithio'n galed i wneud Merthyr Tudful yn lle glanach a gwyrddach i CHI!

*Littering is
a criminal
offence*

Rhentu Smart Cymru



Enw ar frand yw Rhentu Smart Cymru ar gyfer yr awdurdod trwyddedu canolog a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Caiff ei redeg mewn partneriaeth gan 22 Awdurdod Lleol Cymru.

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, y mae yna bellach orfodaeth gyfreithiol ar landlordiaid sydd ag eiddo i'r rhentu yng Nghymru.

Mae'n ofynnol bod unrhyw landlord yn cofrestru os oes ganddo eiddo i'w rentu yng Nghymru sydd ar rent tenantiaeth sicr, fyrrddaliol sicr neu reoledig. Bydd pennu pwy sydd angen cofrestru'r eiddo yn dibynnu ar ba fath o berchnogaeth sydd gan yr eiddo.

Nid oes angen trwydded ar landlordiaid nad ydynt yn cyfranogi wrth sefydlu tenantiaethau a rheoli eu heiddo sydd ar rent; fodd bynnag rhaid iddynt ddefnyddio asiant trwyddedig a chofrestru fel landlord gan ddatgan eu hasiant ar y cofrestrriad. Mae'n ofynnol bod landlordiaid sy'n ymgymryd â gosod, ac â thasgau rheoli eu heiddo sydd ar rent, yn gwneud cais am drwydded.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu (Caerdydd) yn gweithio â'r 21 Awdurdod Lleol i gyflawni eu gweithredoedd o dan y Ddeddf. Mewn rhai achosion bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithredu'n orfodol yn erbyn y landlordiaid a'r asiantaethau hynny nad ydynt wedi cydsynio â'u goblygiadau cyfreithiol ar ran yr Awdurdod Trwyddedu.

Er mwyn cynnig gwasanaeth cyflawn ar gyfer y sector rhentu preifat yng Nghymru, mae gwybodaeth ar gael hefyd gan Rentu Smart Cymru i gynorthwyo tenantiaid sy'n byw neu'n bwriadu byw yn y sector rhentu preifat.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am gymhwyso Deddf Tai Cymru ar landlordiaid a chyngor i denantiaid ar <https://www.rentsmart.gov.wales>



Housing allocation policy

Mae angen diweddarau'r polisi dyrannu tai yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth ac anghenion pobl ym Merthyr Tudful. Dyma'ch cyfle chi i ddweud eich dweud am sut bydd y cyfle Dewis Tai yn gweithredu yn y dyfodol.

Mae gennych hyd at ddydd Llun, 16 Mai, i ddweud eich dweud am hyn a gellir gwneud hynny drwy gwblhau arolwg ar-lein ar www.cwmatahub.com neu gasglu copi papur oddi wrth y Ganolfan Ddinesig.

E-bostiwch housing@merthyr.gov.uk neu ffoniwch (01685) 725452 os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, ein nod yw rhoi cyhoeddusrwydd i bolisi drafft i'w ystyried yn ystod haf 2016, gyda'r polisi terfynol yn weithredol yn ystod yr hydref 2016.

*This is your chance
to have a say on
how the Housing
Choice scheme
will operate in the
future.*

Byrddau Diodelu Cwm Taf

Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliodd Byrddau Diogelu Cwm Taf, yr Wythnos Ddiogelu cyntaf erioed yng Nghymru – gan ddefnyddio'r achlysur pwysig i lansio eu gwefan newydd.

Mae'r risg o gam-drin, esgeulustod neu ffurfiau eraill o niweidio – i bobl o bob oed sy'n agored i niwed – yn real iawn ac yn rhywbeth y dylai pawb fod yn ymwybodol ohono, fel eu bod yn gallu sylwi ar yr arwyddion rhybuddio, ac yn fwyaf pwysig, gwybod yn union i ble i fynd am help.

Mae diogelu yn fater o flaenoriaeth i'r fath raddau fel y trefnodd Byrddau Diogelu Cwm Taf, sy'n cynnwys amrywiaeth o asiantaethau partner o bob rhan o'r rhanbarth, Wythnos Ddiogelu i ddarparu digwyddiadau codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a hyfforddiant staff, a lansio gwefan: www.cwmtafsafeguarding.org

Mynychwyd digwyddiad lansiad y wefan gan y Comisiynydd Pobl Hŷn Sarah Rochira a'r Comisiynydd Plant Sally Holland a chafwyd areithiau ingol gan y ddwy.

Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am yr amrywiaeth o faterion yn ymwneud â diogelu y mae Cwm Taf yn eu hwynebu ac mae ganddo adrannau pwrpasol i rieni, plant, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Cafodd ei gynllunio i fod yn safe cynhwysol yn llawn cyngorion a chanllawiau i bobl sydd â phryderon – amdanynt eu hunain neu am rywun arall.

Dyweddodd Giovanni Isingrini, Cyd-gadeirydd Byrddau Diogelu Cwm Taf: "Cafodd ein Hwythnos Ymwybyddiaeth am Ddiogelu ei gynllunio i feithrin

perthynas â'r cyhoedd a'r staff sy'n gweithio ar ran y sefydliadau sy'n ffurfio ein Byrddau Diogelu i godi ymwybyddiaeth am faterion, sut i ymateb iddynt ac i ble i fynd am help.

"Mae gennym ni oll ran i'w chwarae, boed yn blymwr sy'n ymweld â chartref, yn berson trin gwallt gyda chleient hŷn neu'n hyfforddwr chwaraeon sy'n pryderu am berson ifanc yn y tîm. Dim ond drwy wneud yr ymrwymiad hwnnw i fod yn ymwybodol ac i bawb gymryd peth perchnogaeth dros ddiogelu y gallwn gyfuno i warchod y rheini sydd ein hangen fwyaf."

Ychwanegodd Lisa Curtis-Jones, Cyd-gadeirydd Byrddau Diogelu Cwm Taf: "Roedd yn ffrainc cymryd rhan yn lansiad gwefan Diogelu Cwm Taf yr wythnos hon, a luniodd rhan o Wythnos Ddiogelu Cwm Taf. Y digwyddiad hwn oedd y cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac roeddem ni'n falch iawn i fod yn rhan o hyn."

"Mae gan bob plentyn ac oedolyn sy'n wynebu risg (pa bynnag gefndir, diwylliant, oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd, credo sydd ganddynt) yr hawl i gyfranogi mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, cam-drin, bwlio na gwahaniaethu. Mae gan bob plentyn ac oedolyn sy'n wynebu risg yr hawl i gael eu gwarchod rhag niwed, ecsploetiaeth a cham-drin."

*bespoke sections
for adults,
children, parents/
carers and
professionals*

Y diwedddaraf am Barc a Chastell Cyfarthfa

Mae rhaglen Parciau i'r Bobl, Cyfarthfa, ar ei blwyddyn olaf o gyflawniad. Gwelodd y rhaglen, a ariennir gan Gronfa Fawr y Loteri, wedi adfer Llynnoedd Cyfarthfa, gosod llwybrau cerdded newydd i wella mynediad a chwblhau Bwthyn a Storfa Bygi oddi fewn i ardal yr ardd furiog.

Mae'r Bwthyn yn darparu lle i staff, cyfleusterau cyfarfod ac ystafell ddosbarth a bydd siop newydd yno cyn bo hir. Mae strwythur y Tŷ Iâ wedi ei gwblhau, a bydd llwybr yn cael ei osod i ganiatáu mynediad.

Yn ystod y gwanwyn bydd y Pafiliwn Bowls wedi ei gwblhau ynghyd â'r draenio a thirlunio, gan gynnwys tocio rhai o'r coed ar hyd prif ffordd y dreif a chyfagos â'r rheilffordd model. Bydd hyn yn adfer golygfeydd hen Weithfeydd Haearn Cyfarthfa ac yn parhau i ddatblygu ardal Treftadaeth Cyfarthfa.

Mae gwaith archwilio ar fin digwydd ar y safle Rhufeinig i bennu beth yw ei hyd a'i led a'i swyddogaeth, gyda gwirfoddolwyr lleol yn chwarae rhan hanfodol. Ym mis Chwefror, cyflwynwyd cais pellach i Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddol oddi fewn i'r parc a'r ardal Dreftadaeth.



**Mae angen rhieni maeth
ar blant**

Byddwch yn rhiant maeth

**Cysylltwch â ni i ganfod rhagor
am eich lwfansau hael ar
Rhadffôn 0800 678 3798
neu 01685 724589**

E-bost foster.adopt@merthyr.gov.uk neu
ewch i'n gwefan – www.merthyr.gov.uk



**Canolfan ymgysylltu
â'r gymuned Cwm Taf**

Cyfranogwch at arolygon y Cyngor – popeth o osod cyllideb, penderfynu ar flaenoriaethau'r Cyngor, cysyniadau dylunio newydd i adeiladau a phontydd, a phopeth sydd rhyngddynt!

Ymwelwch â <http://www.cwmtafhub.co.uk/> i ganfod pa arolygon sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Byddwch yn rhan o'ch cymuned a rhoiwch wybod i ni beth yw eich barn... **Gallwn wneud gwir wahaniaeth gyda'n gilydd!**



CWM TAF COMMUNITY ENGAGEMENT HUB

"Helping you have your say and shape services in Merthyr Tydfil and Rhondda Cynon Taf"

Atal Parcio Problemus

Atal parcio problemus! Dyna'r nod ar gyfer ein Swyddogion Gorfodi Sifil.

Pam fod gan CBSMT bwerau Gorfodi Parcio Sifil?

Caiff pawb fudd o Orfodi Parcio Sifil ac eithrio'r rheini sy'n torri'r ddeddfwriaeth wrth barcio.

Mae'r buddion hyn yn cynnwys:-

- ▶ Annog parcio synhwyrol ac yn fwy pwysig diogel er budd holl ddefnyddwyr y ffordd, yn cynnwys cerddwyr, seiclwrwyr a'r rhan fwyaf o yrrwyr
- ▶ Mae'n gwella diogelwch ar y ffyrdd
- ▶ Mae'n lleihau tagfeydd ac yn gostwng llygredd
- ▶ Mae'n gwella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus
- ▶ Mae'n helpu busnesau i fod yn fwy effeithlon wrth dderbyn nwyddau

Pwy sy'n cyflawni'r Gorfodi?

Mae 5 Swyddog Gorfodi Sifil gennym sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor i weithredu'r gorfodi. Caiff gweinyddu'r Hysbysiadau Tâl Cosb eu gwneud gan aelodau eraill o'r tîm parcio sydd wedi eu lleoli yn y Ganolfan Ddinesig.

Fel gwasanaeth llinell flaen, mae'r Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil yn gweithio'n galed dros ben yn y gymuned i arbed parcio problemus, gan arwain at ddiogelwch a llai o dagfeydd i fodurwyr eraill. Y mae'n bwysig bod y gymuned yn gweithio gyda'r swyddogion hyn i wneud Merthyr Tudful yn amgylchedd mwy diogel a glân.

Beth fydd cost HTC?

Caiff lefel yr HTC ei gosod yn genedlaethol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd dwy lefel o daliadau cosb gan ddibynnu ar ddirifoldeb y drosedd. £70 yw lefel uchaf bresennol y troseddau a lefel is y troseddau yw £50. Mae gostyngiad o 50% yn gymwys os caiff yr HTC ei dalu o fewn 14 diwrnod ar ôl dyddiad gostwng y tâl i £35 neu £25.

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n talu?

Os na chaiff y Tâl Cosb ei dalu ymhen 28 niwrnod ar ôl y dyddiad cyflwyno, bydd Grŵp Parcio De Cymru yn cyflwyno Hysbysiad i'r Perchennog i berchennog cofrestredig y cerbyd, sy'n ymddwyn fel nodyn atgoffa terfynol cyn bod tâl ychwanegol yn cael ei ychwanegu at swm y Tâl Cosb.

Cyfarwyddiadau ar gyfer talu

Rhaid derbyn taliad o'r Hysbysiad Tâl Cosb (HTC) ymhen 28 niwrnod ar ôl y dyddiad cyflwyno. Os caiff taliad ei dderbyn ymhen 14 diwrnod ar ôl y dyddiad cyflwyno, bydd y swm gostyngedig a ddangosir drosodd yn cael ei dderbyn fel taliad. Gallwch dalu gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- ▶ AR-LEIN www.swpg.co.uk
- ▶ POST: Grŵp Parcio De Cymru, PO Box 87 CF47 7BL
- ▶ FFÔN: 033 33 200 867
- ▶ YN Bersonol : Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell Merthyr Tudful, CF47 8AN

Herio'r Tâl Cosb

Mae hawl gennych i herio'r Hysbysiad Tâl Cosb (HTC). Gellir cyflwyno her yn ysgrifenedig, ymhen 28 niwrnod ar ôl y dyddiad cyflwyno, i Grŵp Parcio De Cymru, Blwch PO, Merthyr Tudful, CF47 7BL, neu ar-lein: www.swpg.co.uk.

Bydd GrŵpParcio De Cymru un ai'n derbyn y rheswm/ rhesymau dros yr her a gohirio'r HTC, neu'n gwrthod yr her a chyflwyno Gorchymyn Hysbysiad i'r Perchennog. Gellir cyflwyno sylwadau pellach pan fydd yr Hysbysiad i'r Perchennog wedi ei gyflwyno. Bydd yr Hysbysiad i'r Perchennog yn gosod y seiliau dros wneud sylwadau a'r modd y mae'n rhaid gwneud y sylwadau. Os yw Grŵp Parcio De Cymru yn gwrthod sylwadau pellach, mae hawl gennych i apelio yn erbyn y penderfyniad yn y Tribiwnlys Cosb Traffig sy'n annibynnol o'r awdurdod lleol.

*Mae gostyngiad
o 50% yn
gymwys os caiff
yr HTC ei dalu o
fewn 14 diwrnod*


g

Sut gallaf i osgoi cael HTC?

Mae'r rhan fwyaf o fodurwyr yn gyfrifol, ond i sicrhau eich bod yn parcio'n gyfreithlon a diogel:-

- ▶ Gwiriwch y llinellau ar y ffordd ac unrhyw arwyddion bob tro
- ▶ Parciwch oddi fewn i farciau'r man parcio bob tro
- ▶ Sicrhewch nad oes unrhyw un o'ch olwynion ar linellau melyn
- ▶ Dilynwch y rheoliadau mewn meysydd parcio
- ▶ Peidiwch â rhwystro cyrbiau gostyngedig
- ▶ Peidiwch â pharcio fwy na 50 cm i ffwrdd o'r cyrb
- ▶ Peidiwch â pharcio ar lwybr troed
- ▶ Peidiwch â pharcio ar groesfan cerddwyr, llinellau gwyn igam-ogam na marciau 'ysgol cadwch yn glir'
- ▶ Peidiwch â pharcio mewn ardal barcio preswylwyr heb drwydded ddilys
- ▶ Peidiwch â pharcio mewn man parcio cadw e.e. man parcio i'r anabl oni bai bod hawl gennych wneud hynny
- ▶ Maes parcio Talu ac Arddangos .

Am wybodaeth bellach am Orfodi Parcio Dinesig ewch i wefan y Cyngor ar www.merthyr.gov.uk neu cysylltwch ag Adran Parcio'r Cyngor ar 01685 725000.



Caiff eich GWASTRAFF BWYD droi'n YNNI i bŵer eu cartrefi

Your FOOD WASTE is recycled into ENERGY to power our homes

mae'n dda gwybod

good to know

Ailgylchwch eich gwastraff bwyd er mwyn pweru ein cymuned leol. Am fwy: www.ailgylchudros gymru.org.uk

Recycle all your food waste to power our local community. Find out more: www.recycleforwales.org.uk

recycle for Merthyr Tydfil ailgylchu dros Ferthyr Tudful

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cynghor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TYDFUL

Datgloi'r ynni sydd ynghlwm â'ch gwastraff bwyd

Amcangyfrifir bod 3500 tonnall o wastraff bwyd yn diweddu mewn biniau sbwriel yng Nghymru bob wythnos. Petai hwn yn cael ei ailgylchu drwy dreuliad anaerobig yna gallai gynhyrchu digon o drydan i:

- Greudigon o bŵer i lifoleuo Stadiwm y Mileniwm ar gyfer 5.5 miliwn o gemau rygbi
- Creudigon o bŵer ar gyfer ysgol gynradd ganolig ei maint am dros 2.5 flynedd

Pan gaiff gwastraff bwyd ei ailgylchu o'ch cartref mae'n mynd i ffatri brosesu arbennig ble y caiff ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan ar gyfer cartrefi a'r gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r gwastraff bwyd sy'n diweddu yn eich bin yn aml yn cael ei anfon i dirlenwi, ble y mae'n pydru ac yn gollwng methan – nwy tŷ gwydr niweidiol.

Byddwch yn synnu at gyn lleied o wastraff bwyd sydd ei angen i gynhyrchu digon o bŵer ar gyfer eitemau trydan bob dydd. Wrth ailgylchu 6 chwdyn te yn unig

cynhyrchir digon o ynni i wneud paned. Tra bo 26 cwdyn te yn gallu cynhyrchu digon o drydan ar gyfer teledu am 60 munud - digon o amser i wyllo dwy hanner un o gemau'r 6 Gwlad.

Petai pawb ym Merthyr Tudful yn ailgylchu eu bwyd am 1 wythnos yn unig, byddai hyn yn darparu digon o drydan ar gyfer ysbyty cyffredin am 11 dydd.

Dywedodd Angela Spiteri, Rheolwr Ymgrych ar gyfer Ailgylchu Cymru, "Mae yna lawer o resymau da dros ailgylchu bwyd. Mae'n hawdd ac yn gyfleus, ac yn lle gwneud niwed i'r amgylchedd, mae ailgylchu bwyd yn helpu i'w ddiogelu.

"Hyd yn oed os nad ydych chi'n meddwl eich bod yn cynhyrchu unrhyw wastraff, mae peth

gwastraff bwyd - fel bagiau te wedi eu defnyddio, coffi mâl, esgyrn, ffrwythau a phlicion llysiau - yn anochel a dylid eu hailgylchu.

"Mae'n wych bod Cymru'n arwain y ffordd ac yn cyflawni peth o'r cyfraddau ailgylchu bwyd uchaf yn y DU, fodd bynnag gyda thua 30% o wastraff biniau du yn cynnwys gwastraff bwyd, gallwn barhau i wneud yn llawer gwell fel cenedl".

Os nad ydych eisoes yn ailgylchu eich gwastraff bwyd, dyma'r ffordd i chi ddechrau arni:

1. Mynnwch yr offer cywir. Bydd angen cad i cegin bach, bin ailgylchu bwyd mwy o faint ar gyfer y tu allan a bagiau gwastraff bywd - ac maen nhw ar gael am ddim oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

2. Rhowch fag yn eich cad i cegin ac yna'r bwyd gwastraff ynddo. Gellir cloi'r biniau ailgylchu bwyd gyda'r ddolen i arbed arogleuon.

3. Pan fyddwch eisiau gwagio'ch cad i cegin, clymwch y bag at ei gilydd a'i roi yn y bin ailgylchu bwyd mwy o faint y tu allan.

4. Mae CBS Merthyr Tudful yn darparu gwasanaeth ailgylchu bwyd cyfleus - rhowch eich gwastraff bwyd allan i'w gasglu erbyn 7am bob wythnos ar eich diwrnod ailgylchu arferol.

Am ragor o wybodaeth am ail-gychu bwyd, sut i archebu cad i'ch gwasanaeth lleol, ewch i: www.recycleforwales.org.uk/foodrecycling

#AilgylchuDrosFerthyr

Mae preswylwyr Merthyr Tudful yn gallu ailgylchu eitemau trydanol bach bellach, fel tegell, tostiwr, haearn smwddio, ffonau symudol ac offer pŵer bach gydag ailgylchu ymyl y ffordd.

Rhowch yr eitemau bach ar ben eich blychau ailgylchu. Dylai eitemau mwy o faint fel teledu, oergell, peiriant golchi gael eu cymryd i Ganolfan Ailgylchu a Gwastraff Cartref Dowlais neu Aber-fan, neu gallwch ofyn am gasgliad swmpus.

Rydym hefyd yn casglu hen decstilau a dillad bellach yn ogystal ag esgidiau, llenni a dillad gwely.

- Rhowch nhw mewn bagiau neu fagiau cario neu fagiau gwyn neu glir.
- Os ydych eisoes yn defnyddio gwasanaethau'r elusennau lleol parhewch i wneud hynny.
- Noder: Ni allwn dderbyn tecstilau mewn sachau du na bagiau elusen. Ni allwn chwaith dderbyn duvets, clustogau, gobenyddion nac eitemau ag olew arnynt.
- Parhewch i ddefnyddio'r blychau ailgylchu ar gyfer eich gwydr a chardfwrdd (mewn un blwch) a phapurau newydd, papur a chylchgronau mewn blwch ar wahân.

Dylai caniau bwyd a diod, poteli plastig a chynwysyddion bwyd ac aerosolau barhau i gael eu rhoi yn eich sachau glas y gellir eu hailddefnyddio

Peidiwch â rhoi pcedi creision, bagiau plastig na ffilm yn y sachau glas y gellir eu hailddefnyddio, gan na allwn eu hanfon i'w hailgylchu!!

Peidiwch â chymysgu ailgylchu yn y bagiau plastig.

g Mae Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu wrth law i helpu, felly os hoffech gael ymweliad â'ch cartref gan un ohonynt i gael cyngor ar sut i ailgylchu rhagor, neu os oes angen rhagor o gyngor arnoch am sut i ddefnyddio'r gwasanaeth, rhowch wybod i ni!

wasteservices@merthyr.gov.uk
(01685) 725138

Am ragor o wybodaeth ewch i
www.recycleformerthyr.co.uk
www.merthyr.gov.uk



Coleg Merthyr Tudful ar restr fer gwobr fawreddog Gwobr Coleg y Flwyddyn

Mae Coleg Merthyr Tudful yn dathlu ar ôl cael ei roi ar restr fer Gwobr Coleg y Flwyddyn Coleg Addysg Bellach The Times 2016 fel cydnabyddiaeth o'i lwyddiannau rhagorol, cwricwlwm o ansawdd uchel, deilliannau ardderchog y myfyrwyr a chyfraniad cyffredinol i addysg a hyfforddiant i ddysgwyr ym Merthyr Tudful

Nid yn unig yw'r coleg wedi cyflawni llwyddiannau academiaidd digynsail dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae hefyd wedi gwella cyfraddau cyfranogi'n sylweddol o ran dysgu ledled Merthyr Tudful, cynyddu cyfraddau cynnydd a gwneud cyfraniad sylweddol a nodedig i'r gymuned leol.

Y coleg bellach yw canolbwynt bywyd academiaidd a busnes ar draws Merthyr Tudful a rhanbarth Blaenau'r Cymoedd gyda phartneriaethau ardderchog ag ysgolion uwchradd lleol, y cyngor lleol, darparwyr hyfforddiant a chyfflogwyr.

Mae'r coleg hefyd yn cynnig cefnogaeth eithriadol i fyfyrwyr a rhaglenni cyfoethogi sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar fyfyrwyr ac yn gwella eu profiad, gan hybu sgiliau a hyder ac annog myfyrwyr i gyflawni eu potensial i'r eithaf. Fel tystiolaeth o hyn, derbyniodd y coleg nifer o acoladau allanol:

- ▶ Marc Ansawdd DU Buttle 2015
- ▶ Safle 1af yng Nghystadleuaeth Menter Byd-eang Ewropeaidd, Y Dwyrain Canol ac Affrica 2014
- ▶ 'Gwobr Chwaraeon Rhagorol' 2015 Colegau Cymru

- ▶ Academi Llwyddiant Sefydliad Datblygu Chwaraeon a Darpariaeth Chwaraeon y Flwyddyn Merthyr 2015.
- ▶ Ail Safle am Academi Arweinyddiaeth Chwaraeon allan o holl golegau Addysg Bellach y DU.
- ▶ Ail o'r brig am Goleg Pêl-droed Colegau Prydain 2015
- ▶ Ail o'r brig yng Ngwobr Partneriaethau Rhyngwladol Colegau Cymru 2015.
- ▶ Ail o'r brig yng Ngwobr Rhagoriaeth Addysgu Colegau Cymru 2015.

Dywedodd y Pennaeth John O'Shea "Rydym wrth ein boddau ein bod wedi ein gosod ar y rhestr fer am Wobr Coleg Addysg Bellach y Flwyddyn. Rydym o hyd yn ceisio darparu'r amgylchedd dysgu gorau i wella gallu ein myfyrwyr a rhoi'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyheadau. Mae'n cyfradd llwyddiant yn dangos bod ein hymdrechion wedi talu ffordd. Yn 2015, cyflawnwyd cyfradd llwyddo o 99% yn y Coleg - gan ein gosod ar y brif fel y coleg Addysg Bellach sy'n perfformio orau a Merthyr Tudful yn ymuno â'r rhestr fer am Wobr Coleg Addysg Bellach y Flwyddyn."



Ailagor canolfan y GURNOS yn dilyn ailwampiad £500,000



Wedi ei ariannu gan Raglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru a Chartrefi Cymoedd Merthyr, diben y ganolfan newydd hon yng nghalon cymuned y Gurnos yw cynnig y dechrau gorau posibl i blant ifanc a'u teuluoedd.

Lleolir y ganolfan mewn man ble gall plant gael mynediad at chwarae o ansawdd a phrofiadau dysgu mewn amgylchedd ysgogol dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r adeilad sydd newydd ei ailwampio'n darparu lleoedd cyn-ysgol: 26 lle yn ystod y bore a 26 lle yn ystod y pŵn, i blant 2-3 oed, yn ogystal â chyfleuster crèche, sesiynau datblygu iaith gynnar a rhaglenni'n seiliedig ar iechyd, fel tyllino'r babi.

Bydd rhieni hefyd yn derbyn cefnogaeth ac yn cael cynnig rhaglenni rhianta, yn ogystal â chyfle am gyflogaeth a hyfforddiant addysg.

Am ragor o fanylion ynghylch Dechrau'n Deg:
(01685) 727388
flyingstart@merthyr.gov.uk

26 o leoedd cyn-ysgol yn y bore a 26 o leoedd cyn-ysgol yn y pŵn i blant 2-3 oed





Ysgolion Merthyr yn gwella ar raddfa gyflymach o lawer na gweddill Cymru

Mae ein plant 7, 11, 14 ac 16 oed, wedi gwella ar raddfa gyflymach na gweddill Cymru a'r flwyddyn nesaf rydym yn hyderus y bydd hyn yn oed mwy yn llwyddo!

Heddiw, mae pobl ifanc Merthyr Tudful wedi eu hymbaratoin well, mae ganddynt sgiliau gwell ac mae rhagor ohonynt yn mynd ymlaen i addysg uwch, cyflogaeth a hyfforddiant, nac erioed o'r blaen.

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd Merthyr Tudful yn arwain y ffordd, gan gydweithio fwyfwy i rannu arfer gorau a gwella ansawdd addysgu a dysgu.

Dros y misoedd diwethaf, cafodd ysgolion ym Merthyr Tudful gydnabyddiaeth am ragoriaeth ac arfer orau o ran arweinyddiaeth, addysgu mathemateg, hyfforddi athrawon rhagorol, pontio effeithiol a defnyddio TGCh yn arloesol; ac maen nhw wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill yn y rhanbarth i rannu eu harbenigedd.

'Yn ystod cyfnod o newid sylweddol a diwygio sylfaenol, gweithredodd yr awdurdod lleol yn gyflym â phenderfyniad i gynllunio'r gwelliant' Adroddiad Estyn, Ionawr 2016.

MTCBC's Chief Executive, Gareth Chapman, said: "The improvement in Merthyr Tydfil's Schools is further evidenced in the recent GCSE results in

2015, which were the best ever for the County Borough. Education is the number one priority for the Council and our commitment to schools is at the heart of everything that we continue to do.

Rydwi i'n credu bod ein llwyddiant yn ganlyniad i'n cydweithio. Rydym yn uchelgeisiol o ran pobl ifanc Merthyr Tudful ac mae disgygliadau uchel gennym y byddant yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgais hwythau gan fyw bywydau diogel, iach a chyflawn."

Credaf fod ein llwyddiant yn ganlyniad i'n cydweithio

Paratoi ein myfyrwyr ar gyfer llwyddo yn y dyfodol!

Roedd dros 90 o fyfyrwyr ychwanegol wedi llwyddo yn y pwnc

Mae myfyrwyr Blwyddyn 11 o bob un o'n pedair ysgol uwchradd ym Merthyr Tudful wedi bod yn gweithio'n galed yn paratoi ar gyfer eu harholiadau TGAU Saesneg a Mathemateg.

Cafodd disgyblion y cyfle i gael help a chefnogaeth ychwanegol ar ôl amser ysgol, a manteisiodd llawer ar y cyfle!

Cynigiodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd eu cyfleusterau ar eu lleoliad yng Nghyncoed, Caerdydd ac am dri dydd Sadwrn bob ochr i gyfnod y Nadolig cafodd tua chant o ddisgyblion, ar bob un o'r dyddiau, ymarfer dwys ar gyfer yr arholiad.

Mae hwn yn gyfnod hanfodol i fyfyrwyr, sydd yn gallu gosod llawer o strae'n arnynt wrth iddynt ddynesu at yr arholiadau allweddol hyn, felly helpodd y cymorth ychwanegol hwn, ar ffurf sesiynau astudio sgiliau oddi wrth arbenigwr yn y maes, iddynt adeiladu eu hyder yn ogystal â'u strategaethau a'u technegau.

Gwnaeth y cyfle i ymweld â'r cyfleusterau anhygoel y mae'r brifysgol yn eu cynnig wedyn, yn ogystal â chael cinio yn y ffreutur, gynyddu eu brwdfrydedd a'u cymhelliant i llwyddo i gael y graddau sydd eu hangen i gael mynediad at addysg uwch.

Ac mae'n ymddangos fel bod y gwaith caled wedi talu ar ei ganfed... Pan gyhoeddwyd y canlyniadau TGAU yn gynnar ym mis Ionawr, roedd dros NAW DEG o fyfyrwyr yn llwyddiannus ac wedi llwyddo yn y pwnc!

Mae pawb bellach yn edrych ymlaen at gyfradd llwyddo debyg ym mis Mawrth, pan fydd y canlyniadau ar gyfer Saesneg ar gael...



AC...ACTIWCH!

Mae disgyblion Ysgol Gynradd Caedraw yn aros yn eiddgar am enwebiadau gwobrau'r Oscars y flwyddyn nesaf, yn dilyn eu perfformiad ffantastig yn y ffilm newydd 'Dysgu gydag Awtistiaeth'!

Treuliodd y seleb o Gymro, Gethin Jones, ddeuddydd yn yr ysgol yn ffilmio amrywiaeth o raglenni newydd, a fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch awtistiaeth ymhlith plant ysgolion cynradd Cymru.

Ewch i wefan newydd ASD: www.asdinfoWales.co.uk am amrywiaeth o ffilmiau addysgiadol ac adnoddau i weithwyr proffesiynol, rhieni, gofawyr ac unigolion ag awtistiaeth; gan gynnwys:

Canllaw i rieni a gofawyr yn dilyn diagnosis Adeiladwr proffil personol plant ble y gallant ddweud wrthyh chi'r hyn maen nhw'n ei hoffi a ddim yn ei hoffi

- ▶ Ardystiadau ymwybyddiaeth o Awtistiaeth
- ▶ Ffurflenni hunanwerthuso i ysgolion
- ▶ Offer hyfforddi athrawon
- ▶ Canllaw i oedolion yn dilyn diagnosis
- ▶ Cyfeiriaduron gwasanaeth

A llawer, llawer



Treuliodd y seleb o Gymro, Gethin Jones, ddeuddydd yn ffilmio yn yr ysgol

Ysgol Gymunedol Heolgerig

yn ennill Gwobr y Faner Werdd am y TRYDYDD tro'n olynol!

Mae disgyblion a staff yr ysgol wrth eu boddau â'r wobwr sy'n cydnabod eu gwaith caled parhaus a'u hymroddiad i'r amgylchedd.

Mae addysg amgylcheddol yn chwarae rôl allweddol oddi fewn i'r ysgol; modelu sbwriel, paratoi bwyd iach, casglu sbwriel, cyfrifo milltiroedd bwyd ac ôl-troed carbon yn ogystal â chlybiau chwaraeon, sef dim ond rhai o'r nifer o weithgareddau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â'r disgyblion a chodi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd yr amgylchedd.

Yn fwyaf arbennig, mae plant Cyngor Eco'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i faterion amgylcheddol - maen nhw'n cynnal adolygiad amgylcheddol yn aml ac yn ysgrifennu cynllun gweithredu i gwblhau'r hyn sydd angen ei wneud. Maen nhw hefyd yn perfformio gwiriad rheolaidd i fonitro'r defnydd o adnoddau gwerthfawr yr ysgol.

Dyweddodd Anna Morris, y Pennaeth: "Mae'r wobwr hon wedi bod yn bosibl yn Heolgerig yn sgil gwaith caled ac ymroddiad yr holl ddisgyblion, staff a'r gymuned. Mae Mrs. Warren, ein Cydlynnydd Ysgolion Eco, wedi gweithio'n ddiflino dros nifer o flynyddoedd i gadw'r Faner Werdd i chwifio dros ein hysgol. Da iawn a diolch i bawb a gymerodd ran."



Mae gofal a chymorth yng Nghymru yn newid

O fis Ebrill, byddwch yn cael rhagor o gyfle i leisio'ch barn am eich gwasanaethau cymdeithasol.

Daw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill.

Dyma'r ddeddf newydd ar gyfer gwella llesiant pobl sydd mewn angen am ofal a chymorth, a'r gofawyr sydd mewn angen am gefnogaeth.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd caiff anghenion pobl eu hasesu - bydd gan bobl rhagor o gyfle i ddweud eu dweud ynghylch y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn.

Mae hefyd yn hyrwyddo amrywiaeth o gymorth oddi fewn i'r gymuned i leihau'r angen am gymorth ffurfiol sydd wedi ei gynllunio.

- Bydd gwasanaethau ar gael i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir
- Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael
- Bydd asesiad yn symlach ac yn gyfatebol
- Caiff gofawyr hawl cyfartal i gael eu hasesu am gymorth
- Bydd pwerau cryfach i gadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth a rhag cael eu hesgeuluso

Beth sy'n digwydd nawr?

Os ydych yn derbyn gofal a chefnogaeth, byddwch yn cymryd rhan yn y broses newydd yn ystod dyddiad yr adolygiad nesaf a gynllunnir i chi.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.merthyr.gov.uk neu cysylltwch â corporate.communications@merthyr.gov.uk / (01685) 725052

Adroddiad arolwg gloyw i Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa

Yn ystod mis Rhagfyr 2015 cyflawnodd Estyn (Arolygaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) arolwg yn yr ysgol newydd ei chyfuno, Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa, gan ddyfarnu bod 'ei rhagolygon yn rhagorol'!

Dyfarnwyd bod y profiadau dysgu, addysgu a'r amgylchedd dysgu yn dda, tra bo gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn rhagorol.

Dyma rai penawdau o'r adroddiad:

- 'Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chefnogol, sy'n darparu ymdeimlad cryf o berthyn i'r disgyblion'
- 'Mae'r ysgol wedi creu partneriaethau rhagorol gyda rhieni a rhanddeiliaid eraill sy'n cael effaith cadarnhaol ar agwedd y disgyblion at ddysgu'
- 'Mae'r Pennaeth yn darparu arweiniad effeithiol ac ymroddgar i dim sy'n eithriadol o unedig a chydwybodol'
- 'Mae ymddygiad bron pob disgybl yn deilwng iawn'
- Bellach, mae Estyn wedi gwadd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, i ddisgrifio'r arfer rhagorol a ddynodwyd yn ystod yr arolwg!

Mae'r Pennaeth, Owen Morgan, wedi diolch i'r disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol lleol sydd wedi cefnogi'r ysgol.

Roedd ymddygiad bron pob disgybl yn ardderchog